# Ysgol Gymraeg Pwll Coch

## Cynllun Datblygu Ysgol: Crynodeb

## 2025-26

| Hunanwerthuso ysgol: Trosolwg |
|---|
| **Cryfderau:**<br><br>• Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn cofio dysgu blaenorol gyda mwy o annibyniaeth, yn ennill gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau newydd. Maent yn datblygu eu medrau meddwl a datrys problemau yn dda mewn ystod o feysydd. Gydag annibyniaeth gynyddol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso eu dealltwriaeth, gwybodaeth a'u sgiliau i sefyllfaoedd newydd yn dda, y tu mewn a'r tu allan i'r ystafell ddosbarth.<br>• Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn teimlo'n ddiogel ac yn rhydd o gam-drin corfforol a geiriol yn yr ysgol. Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn magu hyder yn dda. Maent yn deall sut i wneud dewisiadau iach mewn perthynas â diet, gweithgaredd corfforol a lles emosiynol. Mae rhan fwyaf yn gwybod bod ystod o risgiau, sut y gallant ymddangos a sut i gadw eu hunain yn ddiogel ar-lein.<br>• Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau corfforol yn dda ac yn gwneud dewisiadau buddiol a gweithredol. Er enghraifft, wrth ymateb yn gadarnhaol iawn i gyfleoedd i ymgymryd ag ystod eang o weithgareddau corfforol, yn ystod gwersi, amser egwyl / amser cinio, a chlybiau / gweithgareddau ar ôl ysgol. Maent yn dangos ymwybyddiaeth glir o fuddion gweithgaredd corfforol ac yn dyfynnu enghreifftiau priodol o'u cynnydd.<br>• Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda mewn gwersi. Mae ganddynt ddealltwriaeth a chymhwysiad da o ddibenion rheolau, gwobrau a sancsiynau yn yr ysgol. Mae ganddynt ymwybyddiaeth dda o sut mae deddfau'n cael eu ffurfio a sut y maent yn berthnasol iddyn nhw eu hunain ac yn gynyddol yn y gymdeithas ehangach. Mae ymddygiad y disgyblion yn ystod cyfnodau egwyl a chinio yn dda, gyda ran fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn gyson dda yn y cyd-destunau hyn.<br>• Mae rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn dda i gyfraniadau eraill wrth siarad a gwrando. Maent hefyd yn ymateb yn dda pan rennir gwahanol safbwyntiau, hyd yn oed wrth ymateb i'r rhai y maent yn anghytuno â hwy. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos gallu da i ddysgu'n annibynnol, o ran gwybod beth i'w wneud i wella eu dysgu, a sut i gael cymorth.<br>• Mae profiadau dysgu o ansawdd uchel yn seiliedig ar lefel dda o her i ddysgwyr. Mae datblygiad dysgu trwy gyd-destunau dilys yn cael effaith gref a chadarnhaol iawn ar ansawdd y cwricwlwm. Mae llais / dylanwad dysgwr rheolaidd yn fwyfwy dylanwadol wrth lunio'r ddarpariaeth o ran uchelgais uchel.<br>• Mae'r ysgol yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr, rheolaidd a pherthnasol y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Mae'r dysgu hwn yn cysylltu'n uniongyrchol â'r cwricwlwm a |

| |
|---|
| gynlluniwyd ac yn gwneud defnydd buddiol iawn o ymweliadau i ddatblygu diddordeb a dealltwriaeth disgyblion o faes dysgu penodol. Mae'r ysgol yn cyfoethogi'r cwricwlwm yn llwyddiannus, trwy ystod eang o glybiau a gweithgareddau ychwanegol sy'n adlewyrchu'r pedwar pwrpas yn dda.<br>• Mae'r ysgol yn defnyddio partneriaethau â sefydliadau eraill, i ddarparu cefnogaeth effeithiol iawn i ddysgwyr ag anghenion arbennig ac anghenion ychwanegol ehangach. Mae'r ysgol yn ymgysylltu â gwasanaethau asiantaethau arbenigol, yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n wynebu rhwystrau sylweddol i ddysgu. Mae ansawdd ac effaith hyn yn dda.<br>• Mae arweinwyr yn sefydlu perthnasoedd buddiol gyda rhieni a mae ganddynt linellau cyfathrebu da â nhw fel bod rhieni’n gallu cynorthwyo eu plant yn dda, a chodi unrhyw faterion a allai effeithio ar ddysgu a lles eu plentyn. Mae’r ysgol yn mynd ati'n effeithiol i helpu datblygu gallu rhieni i gynorthwyo eu plant eu hunain. |
| **Meysydd i'w datblygu:**<br>• Sichrau bod disgyblion yn gwneud dewisiadau unigol am eu dysgu er mwyn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.<br>• Mireinio trefniadau asesu er mwyn scirhau lefel her priodol a disgwyliadau uchel i bob dysgwr.<br>• Cau’r bwlch tlodi, gyda ffocws ar fedrau darllen disgyblion ar draws yr ysgol. |

| **GWERTHUSO CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2024 /2025** | |
|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Gwerthusiad o'r cynnydd** |
| Mireinio a chysoni darpariaeth, sicrhau uchelgais a dyfnhau dealltwriaeth staff o gynnydd er mwyn codi safonau ysgrifennu estynedig disgyblion ar draws yr ysgol. | Wedi cyflwyno strategaethau addysgu ysgrifennu estynedig ar draws yr ysgol ar ddechrau’r flwyddyn, mae bob athro yn defnyddio’r strategaethau yn effeithiol a chyson. O ganlyniad, mae disgyblion yn adeiladu ar y sgiliau angenrheidiol i ysgrifennu’n effeithiol ar draws ystod eang o ffurfiau sydd yn addas i’r oed a’r gallu. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn defnyddio dulliau asesu ar gyfer dysgu yn gadarn er mwyn asesu cynnydd, dealltwriaeth a chynllunio’r camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw bob disgybl yn asesu gwaith eu cyfoedion mewn modd aeddfed a heriol sydd yn symud y dysgu yn eu blaen. Yn dilyn rhaglen gynhwysfawr o hyfforddiant, mae bron bob un aelod o staff yn deall yr egwyddorion sydd y tu ôl i’r cynlluniau gwaith ac yn ymwybodol o ddilyniant pwrpasol o fewn y cynllunio. Er hyn, mae angen ffocws ar ddulliau ym Mlynyddoedd 1 a 2 ym mis Medi 2025, gan deilwra’r dulliau i fod yn fwy addas i’r oedran ac egwyddorion y Dysgu Sylfaen. |

| | |
|---|---|
| Dyfnhau dealltwriaeth holl staff yr ysgol o ofynion y Fframwaith Cymhwysedd Digidol er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth gan arwain at gynnydd priodol i bob dysgwr. | Ers cyflwyno disgwyliadau a rhaglen waith newydd ym mis Medi, mae bob aelod o staff yn cynllunio ystod eang o brofiadau digidol i'r disgyblion yn dda.O ganlyniad, mae bron bob un disgybl ar draws yr ysgol yn datlbygu eu medrau digidol ar draws ystod eang o feysydd yn fedrus. Wrth i ddisgyblion symud drwy'r ysgol, mae eu medrau digidol yn datblygu'n briodol o ystyried eu hoed a'u gallu, ac mae trawsdoriad cyfoethog o waith i'w weld. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn arddangos a thrafod eu gwaith yn aeddfed. Fodd bynnag, nid yw bob disgybl yn cwblhau'r gwaith bob tro. Er mwyn sicrhau cyflawniad priodol o waith i bob disgybl, ame angen ail-ystyried yr amserlen gan sicrhau bod amser priodol i gyflawni tasgau'n llawn. |
| Gwella cyfleoedd o fewn cyd-destunau bywyd go-iawn, dilys i ddatblygu medrau rhifedd disgyblion ar draws y cwricwlwm er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o gysyniadau mathemategol. | Mae medrau mathemateg y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn datblygu'n gadarn. Maent yn dysgu sgiliau newydd yn dda ac yn cymhwyso'u medrau ar draws ystod cynyddol eang o gyd-destunau bywyd go-iawn, dilys. Mae athrawon yn cynllunio dilyniant pwrpasol o wersi sydd yn adeiladu ar ei gilydd yn briodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gweithio ar y lefel disgwyliedig am eu hoedran. Mae cynnydd a chyrhaeddiad y rhan fwyaf o ddisgyblion o fewn y rhaglen Big Maths yn gadarn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu ymwybyddiaeth o rifedd ar draws y cwricwlwm yn gadarn. Maent yn datblygu eu medrau dysgu annibynnol yn briodol, gan gymhwyso eu sgiliau rhifedd yn dda. Maent yn datrys problemau cymhleth gan ddefnyddio dulliau amrywiol a chadarn. Yn dilyn cyfres o sesiynau hyfforddiant, mae bron bob athro yn dangos hyder wrth gynllunio gweri rhifedd ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae lle i edrych ymhellach ar gyfleoedd i ddatblygu medrau rhifedd o fewn y maes dysgu Gwyddoniaeth a Thechnoleg. |
| Parhau i ddatblygu darpariaeth ADY a Lles ar draws yr ysgol er mwyn sicrhau bod dysgwr, gan gynnwys disgyblion ag ADY, yn cael mynediad lawn at gwricwlwm yr ysgol. | Ym mhob dosbarth ar draws yr ysgol, mae strategaethau 'universal provision' wedi eu gwreiddio gan gynnwys amserlenni gweledol, tasgau nawr a nesaf a chorneli lles. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sydd ag ADY, yn llwyddo i reoleiddio'n dda yn y dosbarthiadau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn gyson ac yn cefnogi bron bob dysgwr ADY i wneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae arweinwyr a staff allweddol yn olrhain cynnydd y disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, maent yn cynllunio'r camau nesaf yn effeithiol ac yn gosod targedau priodol i bob dysgwr. Mae'r dosbarth llythrennedd wedi ei ymwreiddio erbyn nawr, ac o ganlyniad, mae bron bob dysgwr sydd ag anawsterau llythrennedd yn derbyn cefnogaeth briodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymgysylltu'n dda gyda'r gwersi ac yn gwneud cynnydd cadarn. Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer cefnogi lles y disgyblion yn dda. Mae ymyrraethau pwrpasol yn cefnogi unigolion a grwpiau penodol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion mwyaf bregus yr ysgol yn derbyn cyefnogaeth cyson a phriodol. |

| | |
|---|---|
| Datblygu amgylchedd dysgu y dosbarthiadau Dysgu Sylfaen (tu fewn a thu allan) er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth a gwella annibyniaeth y dysgwyr. | Yn dilyn rhaglen estynedig o hyfforddiant, mae bob aelod o staff yn yr adran Dysgu Sylfaen wedi datblygu eu dealltwriaeth o egwyddorion priodol yn gadarn. Gyda ffocws ar egwyddorion Ffroebelaidd, mae ffordd newydd o osod darpariaeth wedi ymwreiddio ar draws bob dosbarth yn yr adran. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu annibyniaeth a brwdfrydedd tuag at eu dysgu. Mae bron bob aedolyn yn yr adran yn gweithredu'n effeithiol fel 'enabling adult' gan herio, cefnogi a symud y dysgu ymlaen yn bwrpasol. Mae'r rhan fwyaf o ddosbarthiadau wedi datlblygu i fod yn amgylcheddau dysgu ysgogol a chartrefol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ar draws ystod eang o feysydd yn dda. Mae'r ardaloedd dysgu allanol wedi datblygu ar hyd y flwyddyn, fodd bynnag, mae angen buddsoddi yn yr adnoddau gan sicrhau fod ffocws ar fedrau penodol yn digwydd yn yr ardaloedd. |

| **BLAENORIAETHAU CYNLLUN DATBLYGU YSGOL 2025 /2026** | | |
|---|---|---|
| **Blaenoriaeth** | **Cymorth a Chydweithio** | |
| **Blaenoriaeth 1**<br><br>Cryfhau gweithdrefnau asesu er mwyn diogelu lefel her cyson a disgwyliadau uchel ar gyfer bob disgybl. | • Ymgysylltu gyda'r rhaglen NACE gan gydweithio gydag Ysgolion NACE ar draws y rhanbarth.<br>• Rhaglenni hyfforddi CCD gyda ffocws ar drefniadau asesu a lefel her.<br>• Cydweithio gyda Chlwstwr Glantaf ar lefel arweinyddol ac o fewn fforymau blwyddyn. | |
| **Cerrig Milltir Rhagfyr**<br><br>Ffocws: Sefydlu a chynllunio<br><br>• Adolygu polisïau a gweithdrefnau asesu presennol.<br>• Cynnal hyfforddiant staff ar arferion asesu effeithiol a chydweithredol.<br>• Diffinio disgwyliadau clir ar gyfer pob grŵp blwyddyn a phwnc.<br>• Sefydlu systemau monitro i olrhain her a chynnydd disgyblion. | **Cerrig Milltir Mawrth**<br><br>Ffocws: Sefydlu a chynllunio<br><br>• Adolygu polisïau a gweithdrefnau asesu presennol.<br>• Cynnal hyfforddiant staff ar arferion asesu effeithiol a chydweithredol.<br>• Diffinio disgwyliadau clir ar gyfer pob grŵp blwyddyn a phwnc.<br>• Sefydlu systemau monitro i olrhain her a chynnydd disgyblion. | **Cerrig Milltir Gorffennaf**<br><br>Ffocws: Sefydlu a chynllunio<br><br>• Adolygu polisïau a gweithdrefnau asesu presennol.<br>• Cynnal hyfforddiant staff ar arferion asesu effeithiol a chydweithredol.<br>• Diffinio disgwyliadau clir ar gyfer pob grŵp blwyddyn a phwnc.<br>• Sefydlu systemau monitro i olrhain her a chynnydd disgyblion. |
| **Blaenoriaeth 2** | • Ymgysylltu gydag astudiaeth achos y Consortiwm 'Datblygu Annibyniaeth ac Effeithiolrwydd Dysgwyr'. | |

<table>
<tr>
<td>Darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu er mwyn datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol.</td>
<td colspan="2"><ul><li>Cydweithredu ac ymweld ag ysgolion eraill sydd yn hyrwyddo annibyniaeth yn effeithiol a chadarnhaol yn eu gwersi.</li><li>Ffurfio triawdau dysgu o fewn yr ysgol gyda ffocws ar annibyniaeth.</li></ul></td>
</tr>
<tr>
<td>Cerrig Milltir Rhagfyr<br><br>Ffocws: Cynllunio a chodi ymwybyddiaeth<ul><li>Cyflwyno'r cysyniad o ddysgu annibynnol i ddisgyblion drwy weithgareddau dosbarth.</li><li>Datblygu dealltwriaeth staff o strategaethau i feithrin dysgwyr annibynnol.</li><li>Cychwyn ar ddefnyddio offer hunanasesu a myfyrio (e.e. siartiau cynnydd, dyddiaduron dysgu).</li><li>Cynnwys disgyblion mewn gosod targedau personol ar gyfer eu dysgu.</li></ul></td>
<td>Cerrig Milltir Mawrth<br><br>Ffocws: Datblygu arferion a sgiliau<ul><li>Disgyblion yn defnyddio dulliau hunanasesu yn rheolaidd.</li><li>Cynnig cyfleoedd i ddisgyblion ddewis dulliau dysgu neu gweithgareddau.</li><li>Cynnal sesiynau myfyrio rheolaidd lle mae disgyblion yn trafod eu cynnydd a'u targedau.</li><li>Rhannu arferion da rhwng staff a chynnal sesiynau datblygu proffesiynol.</li></ul></td>
<td>Cerrig Milltir Gorffennaf<br><br>Ffocws: Cydgrynhoi a gwerthuso<ul><li>Disgyblion yn arwain eu dysgu mewn prosiectau annibynnol neu gydweithredol.</li><li>Gwerthuso effaith y strategaethau ar annibyniaeth disgyblion drwy adborth a data.</li><li>Dathlu llwyddiannau disgyblion fel dysgwyr annibynnol (e.e. arddangosfeydd, tystysgrifau).</li><li>Adolygu a mireinio'r dulliau ar gyfer y flwyddyn nesaf.</li></ul></td>
</tr>
<tr>
<td>Blaenoriaeth 3<br><br>Miniogi gweithdrefnau'r ysgol I leihau'r bwlch tlodi, gyda ffocws ar gryfhau medrau darllen disgyblion sydd o dan anfantais.</td>
<td colspan="2"><ul><li>Cydweithio â ysgolion y clwstwr i rannu data, strategaethau llwyddiannus ac adnoddau.</li><li>Triawdau – athrawon i gydweithio / arsylwi ar ei gilydd rannu arfer gorau mewn darllen ar ol ymchwil.</li><li>Ffurfio cymunedau dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar gau'r bwlch darllen</li></ul></td>
</tr>
<tr>
<td>Cerrig Milltir Rhagfyr<br><br>Ffocws: Sefydlu sylfeini a chasglu data<ul><li>Adolygu a mireinio gweithdrefnau presennol sy'n ymwneud â chynhwysiant a chynnydd darllen.</li><li>Cynnal dadansoddiad manwl o ddata darllen disgyblion dan anfantais.</li></ul></td>
<td>Cerrig Milltir Mawrth<br><br>Ffocws: Gweithredu a monitro<ul><li>Gweithredu strategaethau darllen wedi'u targedu ar gyfer disgyblion dan anfantais.</li><li>Sicrhau bod gweithdrefnau ysgol yn cefnogi cydweithio rhwng staff, rhieni a chymunedau.</li></ul></td>
<td>Cerrig Milltir Gorffennaf<br><br>Ffocws: Gwerthuso ac ehangu<ul><li>Cynnal gwerthusiad terfynol o effaith y strategaethau darllen a'r gweithdrefnau ysgol.</li><li>Casglu adborth gan staff, disgyblion a rhieni.</li><li>Adnabod disgyblion sydd wedi gwneud cynnydd sylweddol a rhannu llwyddiannau.</li></ul></td>
</tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| • Sefydlu grŵp llywio neu dimau ffocws i arwain y gwaith.<br>• Cychwyn sesiynau hyfforddiant i staff ar strategaethau darllen effeithiol ar gyfer disgyblion dan anfantais.<br>• Cychwyn monitro cyson o gynnydd darllen drwy asesiadau cychwynnol. | • Monitro cynnydd disgyblion yn rheolaidd a chynnal cyfarfodydd adolygu.<br>• Rhannu arfer da o fewn yr ysgol ac ar draws clwstwr lle bo'n berthnasol.<br>• Adolygu effaith y gweithdrefnau ar leihau'r bwlch tlodi. | • Paratoi cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn nesaf yn seiliedig ar ddysgu a gwerthusiad.<br>• Ehangu'r dulliau llwyddiannus i feysydd eraill o'r cwricwlwm lle bo'n berthnasol. |